

Codi dwrn

“Oherwydd ef yw ein heddwch ni wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu.” (adn. 14)

Beth am ddarlflen Effesiaid 2:11–22 ac yna myfyrio

Yr ateb terfynol i'r rhai hynny sydd yn gwrthod yr athrawiaeth am uffern yw hyn. Mae Duw wedi gwneud pob peth er mwyn achub pobl rhag uffern, a'r unig rai a fydd yn debygol o fynd yno yw'r rhai sydd yn dewis mynd yno. Does dim diben dweud y dylai Duw faddau eu pechodau a rhoi cychwyn newydd iddynt. Mae eisoes wedi gwneud hynny ar Galfaria. Sut y gall Duw faddau i'r rhai nad ydynt yn dymuno maddeuant?

Petaem ni yn gweld y natur ddynol fel y mae Duw yn ei gweld, fe fyddem yn darganfod rhywbeth fyddai'n ein synnu. Mae'n debyg mai gweld yr hyn a welodd y diwinydd, Henri Nouwen, y byddem, sef dyn yn codi ei ddwrn. Mae'n testun heddiw yn sôn fod yna ganolfur o wahaniaeth rhwng pobloedd ac mai'r canolfur yma yw ein gelyniaeth. Mae felly rhyngom ni â Duw. Mae'r geiriadur yn diffinio'r gair 'gelyniaeth' fel 'stad o ryfel'. Fe'n ganwyd â natur sydd, nid yn unig, heb ddiddordeb yn Nuw, ond, yn hytrach, sy'n casáu Duw. Mae hyn yn wir, hyd yn oed, am y gorau o bobl. Mae yna agwedd meddwl sydd yn codi dwrn yng ngwyneb Duw. Mae yna rai, beth bynnag a ddigwydd, na fyddant byth yn ildio i'w Creawdwr. Gwell gan y rhain elyniaeth i ildio, rhyfel yn hytrach na heddwch. Beth ddylid ei wneud â'r fath bobl? Onid y gwir yw y dylent gael eu gadael ar eu pen eu hunain? Dyna yw uffern. Dywedodd yr awdures, Dorothy Sayers, fod uffern yn fwynhad o'ch ffordd eich hun am byth.

Mae geiriau C. S. Lewis yn llawer mwy grymus. Mae'n sôn fod yna ddau ddsbarth o bobl yn y bydysawd: “Y rhai hynny sydd yn dweud wrth Dduw ‘Dy ewylllys di a wneler’ – y saint, a'r rhai hynny mae Duw yn dweud wrthyn nhw, ‘Dy ewylllys di a wneler’ – y pechaduriaid.” Ym mha ddsbarth ydych chi heddiw?

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Rhuf. 5:2; Ioan 7:7; Heb. 10:1–20

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y disgrifiodd Iesu ei hun?
2. Ym mha dermau y mae'r awdur at yr Hebraeid yn gosod hyn?

Gweddi

O Dad, nid wyf am sefyll o dy flaen gyda dwrn wedi ei gau, ond, yn hytrach, gyda dwylo a chalon agored. Rwy'n ildio i dy bwrpas di. Dy ewylllys di yw fy ewylllys i. Dy bwrpas, fy mhwrpas. Boed iddi fod felly trwy gydol fy mywyd. Er mwyn dy enw. Amen.